

No.

PWYLLGOR PENODI UWCH REOLWYR

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Gorffennaf, 2024.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd L. Burnett (Cadeirydd); Cynghorydd B.E. Brooks (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr G.D.D. Carroll, P. Drake, Dr. I.J. Johnson and E. Williams.

262 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwrdd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

263 COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Mehefin, 2024 fel cofnod cywir.

264 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

265 TREFNIADAU RECRIWTIO A DETHOL AR GYFER RHEOLWR GWEITHREDOL (PENNAETH STATUDOL) GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD (CX) -

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol yr adroddiad a oedd yn gofyn i'r Pwyllgor nodi a chadarnhau (yn dilyn cyfweiliad dan Ran II yr agenda) ymgeisydd addas i'w benodi ar gyfer swydd Rheolwr Gweithredol (Pennaeth Statudol) Gwasanaethau Democrataidd.

Roedd y Swydd Ddisgrifiad a Manyleb y Person ar gyfer y swydd wedi'u cynnwys yn y Pecyn Recriwtio a oedd ynghlwm wrth yr adroddiad fel Atodiad A. Gofynnwyd i'r aelodau nodi a chadarnhau (yn dilyn cyfweiliadau o dan Ran II o'r rhaglen) ymgeisydd addas i'w benodi.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, roedd

PENDERFYNWYD –

(1) Y dylid cynnal cyfweiliadau o dan Ran II o'r agenda mewn perthynas â swydd y Rheolwr Gweithredol (Pennaeth Statudol) Gwasanaethau Democrataidd ac i Aelodau Etholedig y Pwyllgor wneud penderfyniad terfynol i benodi ymgeisydd addas.

(2) Bod manylion penodiadau gweddilliol yn cael eu dirprwyo, fel y bo'n briodol, i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol, pe byddai ymgeisydd addas yn cael ei gadarnhau gan Aelodau Etholedig y Pwyllgor.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Sicrhau bod penodiad i'r swydd yn cael ei gynnal yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor.

(2) Sicrhau bod holl swyddogaethau'r Cyngor yn cael eu cyflawni o fewn y maes hwn.

266 GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD –

PENDERFYNWYD – O dan Adran 100A (4) o'r Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol ar y sail ei bod yn debygol o gynnwys datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Rhan 4 o'r Atodlen 12A (fel y'i diwygiwyd) o'r Ddeddf, y cyfeirir at baragraffau perthnasol yr Atodlen mewn cromfachau ar ôl y pennawd munud.

267 TREFNIADAU RECRIWTIO A DETHOL AR GYFER RHEOLWR GWEITHREDOL (PENNAETH STATUDOL) GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD (CX) (GWYBODAETH EITHRIEDIG – PARAGRAFF 15) -

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol yr adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Pwyllgor i nodi a chadarnhau (yn dilyn cyfweiliad) ymgeisydd addas i'w benodi ar gyfer swydd Rheolwr Gweithredol (Pennaeth Statudol) Gwasanaethau Democrataidd. Dywedodd y Cyfarwyddwr, yn dilyn cam cyntaf y broses gyfsweld, sef y broses asesu, a oedd wedi cynnwys profion seicometrig, cyfweiliad technegol a chyflwyniad mewn ymgynghoriad â chydweithwyr a oedd yn ymwneud â'r broses asesu, fod tri ymgeisydd wedi'u clustnodi i'w cyfsweld gan y Pwyllgor.

Roedd un ymgeisydd wedi tynnu'n ôl o'r broses am reswm personol ac felly cyfswelodd y Pwyllgor â dau ymgeisydd o dan Ran II.

Yn dilyn y cyfweiliadau gan y Pwyllgor, rhoddodd y Cyfarwyddwr adborth hefyd ar berfformiad ymgeiswyr ar gam cyntaf y broses, gyda'r adborth wedyn yn cael ei

No.

PENDERFYNWYD –

- (1) Penodi James Langridge-Thomas i swydd Rheolwr Gweithredol (Pennaeth Statudol) Gwasanaethau Democrataidd.
- (2) Bod manylion penodiadau gweddilliol yn cael eu dirprwyo, fel y bo'n briodol, i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol.

Rhesymau dros benderfyniadau

- (1) Yn dilyn cyfweiliadau'r ymgeiswyr gan y Pwyllgor.
- (2) Sicrhau bod holl swyddogaethau'r Cyngor yn cael eu cyflawni o fewn y maes hwn.